

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd A. Asbrey, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol), N.C. Thomas ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### 226 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

### 227 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A.M. Ernest.

### 228 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir.

### 229 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cadeirydd fuddiant personol (ond nid oedd yn rhagfarnu) mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda – Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI) Bro Morgannwg 2021-2036 Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol ar y Strategaeth a Ffefrir. Natur ei diddordeb oedd ei bod yn aelod o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a oedd wedi bod yn rhan o'r broses hon fel ymgynghorai. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, arhosodd y Cadeirydd yn y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem ar yr agenda.

230 ADRODDIAD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL AR Y STRATEGAETH A FFEFRIR AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLO) NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy (gyda chefnogaeth gan y Cyfarwyddwr Lleoedd), a'i ddiben oedd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad atodol a'i ganfyddiadau ar Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2021-2036.

Roedd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLIN wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus deng wythnos rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Chwefror 2024, a ymestynnwyd oherwydd cyfnod Gwyliau'r Nadolig. Nododd yr adroddiad y materion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw a sut yr oedd yr ymatebion wedi'u hystyried o fewn yr adroddiad.

Rhannwyd cyflwyniad, a oedd yn cyd-fynd â'r cyfeiriad a'r adroddiad, gyda'r Pwyllgor, a oedd yn amlinellu meysydd allweddol y pwnc hwn:

- Proses y CDLIN.
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.
- Ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Strwythur yr Adroddiad.
- Sylwadau Llywodraeth Cymru (LIC) a chyrff ymgynghori statudol eraill.
- Pryderon seilwaith a fynegwyd ar bob safle allweddol.
- Sylwadau ar y safleoedd allweddol: Gogledd-ddwyrain y Barri, Sain Tathan, Gogledd Dinas Powys a Readers Way, y Rhws.
- Strwythur y CDLIN Adneuo.
- Y camau nesaf ar gyfer y CDLIN, gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth o'r camau gweithredu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol, y Strategaeth a Ffefrir fel sail ar gyfer paratoi'r Cynllun Adneuo yn barhaus.

Codwyd nifer o gwestiynau a sylwadau yn y cyfarfod ar yr eitem hon, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Teimlai'r Cynghorydd Franks, gyda chaniatâd i siarad, nad oedd y pryderon a fynegwyd fel rhan o'r broses ymgynghori wedi cael sylw priodol, yn enwedig ynghylch datblygiad Gogledd-ddwyrain y Barri, a oedd hefyd yn cwmpasu Dinas Powys. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys darpariaeth iechyd a seilwaith, ysgolion, trafndiaeth gyhoeddus a llifogydd posib. Roedd yn pryderu am bwynt a rhesymeg y broses ymgynghori pan oedd trigolion, yn ei farn ef, yn cael yr argraff nad oedd eu hadborth yn bwysig. Esboniwyd gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy nad oedd hyn yn wir, ac roedd y Cyngor yn dal i fod yng nghamau cychwynnol y broses hon, lle'r oedd yn edrych ar gyfeiriad strategol y CDLIN. Nid oedd sylwebaeth nac adborth trigolion am y safleoedd hyn yn cael eu hanwybyddu, ac roedd gwaith ar y materion a godwyd am y safleoedd hyn yn cael ei ystyried ac roedd y manylion ar y pwyntiau a godwyd yn cael sylw. Ar gam y Strategaeth a Ffefrir, nid oedd

lefel y manylion ar gael a fyddai ar gael ar gam y Cynllun Adneuo, ond byddai unrhyw bryderon a fynegwyd yn cael eu hystyried yn briodol. Roedd yn hynod ddefnyddiol a gwerthfawr clywed sylwadau a mewnwelediadau trigolion ar iechyd, llifogydd, traffig a materion eraill er mwyn helpu i ffurfio'r camau nesaf. Byddai'r holl risgiau a nodwyd yn cael eu hasesu'n briodol, h.y. roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â llifogydd wedi ymateb yn gadarnhaol trwy nodi nad oedd perygl llifogydd amlwg yn y rhannau o safle Gogledd-ddwyrain y Barri lle roedd y datblygwyr wedi cynnig lleoli'r tai. Byddai'r gwaith rheoli dŵr wyneb a pherygl llifogydd yn rhywbeth a fyddai'n cael ei adeiladu arno drwy broses y CDLIN Adneuo.

- O ran cwestiwn y Cynghorydd Hooper ar sut roedd y Cyngor yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'i drigolion, er mwyn eu sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw, esboniwyd bod atodiadau'r adroddiad ymgynghori yn manylu ar y sylwadau a dderbyniwyd ac yn rhoi ymateb i bob un ohonynt, yn ogystal â chrynhoi natur y sylwadau a'r ymatebion hyn. Yn ei dro, roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig safbwynt swyddogion ar y cydbwysedd yr oeddent wedi ceisio ei gyflawni fel rhan o broses a datblygiad y CDLIN er mwyn cyflawni lefel briodol o dwf. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol, gyda chaniatâd i siarad, fod yr ymgynghoriad yn bwysig, ond roedd yn rhaid cydbwysu mewnbyn gwerthfawr y cyhoedd hefyd â'r asesiad gan yr arbenigwyr ar dwf cyflogaeth a thai. O ran cyfathrebu â thrigolion ar y rhan hon o'r broses, byddai hyn yn cael ei gymryd yn ôl i'r tîm Cyfathrebu.
- O ran ymholiadau'r Cynghorydd Champion ar ymateb LIC y dylai Cyngor Bro Morgannwg fod yn gweithio gyda chynghorau eraill ac ar wrthod Llandŵ fel safle ymgeisiol ar gyfer y CDLIN, esboniwyd mai barn LIC oedd bod aneddiadau newydd o raddfa y dylid ei hystyried mewn cynlluniau datblygu strategol a oedd yn drawsffiniol ac yn rhanbarthol eu natur na chynlluniau datblygu lleol felly dyna pam y mae'r Cyngor wedi'i atal rhag dyrannu aneddiadau newydd. Pwynt LIC mewn perthynas â'r gwaith trawsffiniol oedd na ddylai'r Cyngor ddangos y dylai fod wedi gwneud rhywbeth gwahanol i'r hyn yr oedd yn ei wneud ond yn ystod y cam hwn o'r broses ac ymlaen i'r cam adneuo dylai'r Cyngor barhau i weithio gyda Chaerdydd a chymdogion eraill i ddangos bod pob un o'r cynlluniau'n eistedd yn foddhaol wrth ymyl ei gilydd a'u bod ar gam tebyg.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at seilwaith ac at argymhelliad Dŵr Cymru i'r Cyngor y dylai'r asesiadau modelu hydrolog ddigwydd cyn y cam cais cynllunio nid yn y cam cynllunio ar gyfer y datblygiadau hyn. Fel rhan o hyn, roedd Dŵr Cymru hefyd wedi cyfeirio at Waith Trin Dŵr Gorllewin y Fro ac Aberddawan a'r diffyg capasiti yn hyn o beth. Er bod Cynllun Rheoli Asedau 10 mlynedd yn ei le, roedd yn bwysig nad oedd y Cyngor yn ymgymryd â datblygiadau tai yn yr ardal hon cyn bod digon o seilwaith a chapasiti wedi'u rhoi ar waith ar gyfer trin a rheoli dŵr gan Dŵr Cymru, a bod y Cyngor yn sicrhau'r cynnydd mewn capasiti ac amseru hyn. Ychwanegodd y Cadeirydd at hyn drwy ddweud am y CDLIN a'r dibyniaethau a osododd o ran y seilwaith angenrheidiol (h.y. Sain Tathan gyda chyfleusterau iechyd digonol ac i adeiladu gorsaf drenau yno) a gofynnodd beth a fyddai'n digwydd pe na bai'r rhain yn cael eu cyflawni neu pe na ellir eu cyflawni o ran y CDLIN. Esboniwyd, o ran yr amgylchiadau a amlinellwyd gan y Cynghorydd a'r Cadeirydd, y byddai angen ailwerthuso'r strategaeth i sicrhau ei bod hi a'r

safleoedd dan sylw yn parhau'n hyfyw. O ran Sain Tathan, roedd sawl elfen i'r rhesymeg dros ddatblygu, felly nid dim ond darparu gorsaf drenau newydd oedd hi ond hefyd alinio tai fforddiadwy â chyfleoedd cyflogaeth newydd yn Aberddawan a'r ardal fenter yn ogystal â darparu gwasanaethau a seilwaith amrywiol. Roedd gan y safleoedd mwy a mwy strategol botensial sylweddol, a oedd yn farn a rannwyd hefyd gan LIC, ac roeddent yn cynnig dull mwy cadarnhaol o dyfu a lefel fwy cadarn o seilwaith.

- Gofynnodd yr Is-gadeirydd pa gynlluniau wrth gefn a oedd ar waith pe bai'r datblygiad yn Sain Tathan yn dechrau ond wedi hynny mae'r Cyngor yn cael gwybod na fyddai unrhyw orsaf drenau'n cael ei hadeiladu. Esboniwyd mai sefyllfa 'iâr ac wy' oedd hon, oherwydd er mwyn dangos yr achos busnes dros orsaf drenau roedd angen adeiladu a datblygu tai, ac ati gerllaw. Pe na bai'r orsaf drenau'n digwydd, ni fyddai hynny'n negyddu'r angen am y datblygiad a byddai angen i'r Cyngor edrych ar ddarpariaeth drafnidiaeth amgen a chynaliadwy yn lle hynny, h.y. ystyried opsiynau 'parcio a theithio' i orsafoedd trenau cyfagos a lleihau'r angen i deithio drwy gael seilwaith sylweddol ar waith yn y lleoliad. Roedd yn bwysig sicrhau bod cymaint o fomentwm cadarnhaol â phosibl tuag at orsaf drenau yn parhau i gael ei adeiladu. Gellid cynnwys cyfleusterau parcio a theithio yn y datblygiad os oes angen oherwydd ei faint a fyddai'n helpu o ran hyblygrwydd.
- Teimlai'r Cynghorydd Wiliam fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull mwy 'cyfannol' o ran yr iaith a ddefnyddiwyd, ac ati ar gyfer y CDLIN, a oedd yn agwedd gadarnhaol ar ddarn mor enfawr o waith. Gofynnodd hefyd am amserlen yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Sain Tathan ac i egluro ystyr y term 'uwchgynllunio' gan gyfeirio at y CDLIN. O ran yr amserlen, roedd mwy o fanylion am hyn yn cael eu ceisio a byddai'r rhain yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law. O ran uwchgynllunio, roedd hyn yn ceisio rhoi mwy o fanylion am sut olwg ddylai fod ar ddatblygiad newydd a thrwy hynny'n rhoi mwy o wybodaeth a sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau lleol ar sut olwg fyddai ar y datblygiad.
- Gofynnodd y Cynghorydd Driscoll am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwahanol safleoedd y CDLIN ac, o ran y ddau safle yn Ninas Powys, am y potensial ar gyfer llifogydd gerllaw, oddi ar y safle, yn ogystal â pha gamau a fyddai'n cael eu cymryd i liniaru hyn. O ran caniatâd cynllunio, nid oedd mabwysiadu cynllun yn cynrychioli'r ffaith bod safle â chaniatâd, ond roedd yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw gais cynllunio dilynol ac felly roedd yn debyg i fath o ganiatâd amlinellol ymlaen llaw y byddai angen ei ystyried fel rhan o unrhyw broses cais cynllunio. O ran llifogydd posibl oddi ar y safle ger safleoedd Dinas Powys, ystyriwyd bod hyn, yn rhan o'r CDLIN, yr un mor bwysig i beryglon llifogydd ar y safle, a bu'n rhaid ystyried nad oedd perygl llifogydd uwch ar y safle na gerllaw iddo.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Penn fod y CDLIN yn ymwneud cymaint â chreu cymunedau ag yr oedd yn ymwneud ag adeiladu tai a seilwaith er mwyn adeiladu datblygiadau cynaliadwy gyda chyfleusterau iechyd, addysg a manwerthu. Roedd yn bwysig symud i fwrdd o adeiladu ystadau tai 'diflas' a 'homogenaidd' ac i'r Cyngor a datblygwyr fod yn fwy creadigol, gan nodi enghraifft datblygiad East Witchell. Mae ymchwil wedi dangos bod y lleoedd yr oedd pobl yn byw ynddynt yn cael effaith uniongyrchol ar eu cyfleoedd bywyd a'u golwg ar fywyd. Roedd yr hyn a gafodd ei adeiladu yr un mor

bwysig â lle y cafodd ei adeiladu. Esboniwyd bod uwchgynllunio yn cynorthwyo i ddatblygu cymunedau o'r fath.

- Gofynnodd y Cynghorydd Norman sut y gallai'r Cyngor a'r Swyddogion Cynllunio warantu bod datblygwyr eiddo yn cyflawni'r hyn yr oeddent yn ei gynnig, gan nodi enghreifftiau blaenorol ym Mro Morgannwg lle nad oedd hyn wedi digwydd. Mewn ymateb, roedd yn bwysig gosod y bar yn uchel o ran dyrannu seilwaith a chyfleusterau ar unrhyw safle penodol ac fel rhan o ystyriaethau cais cynllunio yn y dyfodol, yn ogystal â bod â gofynion cyfreithiol cadarn ar waith i helpu seilwaith o'r fath i gael ei ddarparu mewn datblygiadau. Roedd gwersi hefyd wedi'u dysgu o ddatblygiadau blaenorol, gan gynnwys yr angen am 'lwytho blaen' y broses fel bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer darparu seilwaith erbyn y cam rheoli datblygu.
- Mynegodd y Cynghorydd Hooper bryderon am y cwestiwn blaenorol a ofynnwyd ynghylch diffyg capasiti o ran Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberddawan a gofynnodd a fyddai'r datblygiad cysylltiedig yn cael ei ohirio nes y byddai hyn yn cael sylw. Soniodd hefyd am y diffyg trafodaeth ar liniaru seilwaith gyda'r datblygiadau presennol a dywedodd y dylai hyn fod wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Esboniwyd na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer y datblygiad perthnasol hyd nes bod y gwelliannau seilwaith angenrheidiol wedi'u gwneud ar gyfer draenio / dŵr gwastraff. Fodd bynnag, nid oedd angen i ddatblygiadau na dyraniadau ynddynt eu hunain ddangos y byddent yn gallu goresgyn materion presennol. Ond, drwy ymdrechion gwaith creu lleoedd, byddai'r partïon perthnasol yn cael eu gwneud i wella'r sefyllfa yn yr ardaloedd hyn ac i sicrhau bod gan bob parti gyfrifoldeb ar y cyd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrafnidiaeth, ac ati.
- Ymatebodd y Cyfarwyddwr Lleoedd hefyd i'r amrywiol faterion a godwyd. Roedd hyn yn cynnwys materion gyda datblygiadau blaenorol a oedd eisoes wedi cael sylw drwy'r system gynllunio bresennol a bod gwelliannau pellach i seilwaith y datblygiadau presennol hefyd yn cael sylw. O ran seilwaith, byddai cyllid Adran 106 a'r system cyfraniadau datblygu yn helpu i liniaru problemau presennol lle gallent waethygu o bosibl oherwydd datblygiadau newydd yn ogystal ag edrych ar gynlluniau teithio llesol i helpu i liniaru materion trafndiaeth. Gweithiodd y CDLIN, gyda dogfennau cysylltiedig eraill, i beidio â gwaethygu'r sefyllfa seilwaith a'i nod oedd gwneud pethau'n llawer gwell nag yr oeddent ar hyn o bryd.
- Ailadroddodd y Cynghorydd Wiliam bwysigrwydd dull cyfannol o ymdrin â'r CDLIN ac osgoi'r camgymeriadau a wnaed yn y gorffennol gyda hyn ac fel rhan o'r uwchgynllunio cysylltiedig. Esboniwyd bod materion a phryderon allweddol am seilwaith a'r amgylchedd ar gyfer datblygiadau newydd yn cael sylw drwy'r cam uwchgynllunio, y polisiau rheoli datblygu yn y cynllun adneuo a'r canllawiau cynllunio atodol a oedd ochr yn ochr â'r polisiau.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper (y gwnaeth y Cynghorydd Penn adleisio a chymeradwyo ei bwyntiau) at bwysigrwydd edrych ar ddatblygiadau ar raddfa lai yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â 'bylchau' o ran darpariaeth tai cymdeithasol a pherthynas y Cyngor â Chynghorau Tref a Chymuned a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill o ran hyn. Mewn ymateb, er mai ffocws allweddol uwchgynllunio fyddai'r datblygiadau cymunedol a thai mwy strategol mwy o faint, gallai datblygiadau ar raddfa lai gyd-fynd â pholisiau rheoli datblygu'r Cyngor a'r rhai ar ddatblygu ar ddatblygiadau sy'n bodoli eisoes. Byddai pwyntiau'r Cynghorydd ar hyn yn cael eu hanfon

ymlaen at gydweithwyr yn yr adran Tai i edrych ar hyfywedd yr awgrym hwn, yn enwedig yng ngoleuni'r defnydd cynyddol o adeiladu modiwlaid gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern.

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Norman bwysigrwydd ac angen canolbwyntio ar lety person sengl yn y datblygiadau hyn, oherwydd yr angen presennol am y math hwn o dai. Esboniwyd na allai'r Cyngor fod yn rhy gyfarwyddol o ran y cymysgedd priodol o feintiau tai ond y byddai'n sicrhau bod y cymysgedd hwn yn cynrychioli'r galw a welir ar gyfer gwahanol fathau o dai ar gyfer gwahanol nifer o feddianwyr.
- Yn olaf, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai ymgynghoriad pellach gydag Aelodau Etholedig ar y CDLIN Adneuo, ar y cyd â thrigolion a chymunedau lleol. Cadarnhawyd hyn, a byddai ymgysylltu o'r fath hefyd yn cael ei wneud gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

Cyflwynodd y Cynghorydd Wiliam, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Hooper, argymhelliad fel a ganlyn –

Bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach, oherwydd y pryderon a fynegwyd gan rai Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor ynghylch y materion yn ymwneud â'r amgylchedd, trafnidiaeth a thraffig, risgiau llifogydd, addysg a darpariaeth iechyd mewn perthynas â'r amrywiol ddatblygiadau a ystyrir fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).

Cynhaliwyd Pleidlais a Gofnodwyd ar yr argymhelliad arfaethedig uchod fel a ganlyn:

Aelodau	O blaid	Yn erbyn	Ymatal
C.E.A. Champion	√		
P. Drake		√	
V.P. Driscoll	√		
A.M. Ernest			
M.J. Hooper	√		
C. Iannucci-Williams		√	
S. Lloyd-Selby		√	
J.M. Norman		√	
E. Penn		√	
J. Protheroe		√	
S.T. Wiliam	√		
<b>CYFANSWM</b>	<b>4</b>	<b>6</b>	<b>0</b>

Ni dderbyniwyd yr argymhelliad a gan na chyflwynwyd unrhyw argymhellion pellach, cynhaliwyd Pleidlais a Gofnodwyd ar yr argymhelliad sylweddol, gwreiddiol isod fel a ganlyn:

"Bod yr adroddiad yn cael ei nodi a'i gyfeirio i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 30 Medi 2024 ar gyfer:

- cymeradwyo'r camau gweithredu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol;
- cymeradwyo Strategaeth a Ffeirir y CDLIN fel sail ar gyfer y gwaith parhaus o baratoi'r CDLIN Wedi'i Adneuo.

Er mwyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth a Ffebrir fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol a galluogi'r swyddogion i symud ymlaen i baratoi'r CDLIN Wedi'i Adneuo yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Cyngor."

Aelodau	O blaid	Yn erbyn	Ymatal
C.E.A. Champion		√	
P. Drake	√		
V.P. Driscoll		√	
A.M. Ernest			
M.J. Hooper		√	
C. Iannucci-Williams	√		
S. Lloyd-Selby	√		
J.M. Norman	√		
E. Penn	√		
J. Protheroe	√		
S.T. Wiliam		√	
<b>CYFANSWM</b>	<b>6</b>	<b>4</b>	<b>0</b>

Gyda'r bleidlais yn cael ei chario,

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a'i gyfeirio i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 30 Medi 2024 ar gyfer:

- cymeradwyo'r camau gweithredu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol;
- cymeradwyo Strategaeth a Ffebrir y CDLIN fel sail ar gyfer y gwaith parhaus o baratoi'r CDLIN Wedi'i Adneuo.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod. Hefyd, er mwyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth a Ffebrir fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol gan y Cyngor Llawn a galluogi'r swyddogion i symud ymlaen i baratoi'r CDLIN Wedi'i Adneuo yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Cyngor.

#### 231 BRO MORGANNWG – TWRISTAETH A DIGWYDDIADAU (CL) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Brif Swyddog Twristiaeth a Marchnata'r Cyngor (gyda chefnogaeth gan y Rheolwr Gweithredol, Adfywio), wybod i'r Pwyllgor Craffu am y datblygiadau diweddaraf yn y sector twristiaeth a digwyddiadau ym Mro Morgannwg, yr effaith a gafodd y diwydiant twristiaeth ar yr economi leol ac am ddeddfwriaeth bresennol a sut y byddai hynny'n effeithio ar y diwydiant. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor, yn amlinellu'r meysydd diddordeb uchod yn ogystal â'r canlynol:

- Strwythur Tîm Twristiaeth a Digwyddiadau'r Cyngor.

- Yr ystadegau ar dwristiaeth ar gyfer Bro Morgannwg (gan ddefnyddio'r rhaglen ymchwil twristiaeth STEAM, proses modelu effaith economaidd twristiaeth).
- Ystadegau ar lety sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a deddfwriaeth newydd.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol yn ogystal â Chynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr.
- Y gwaith o gynnal digwyddiadau ym Mro Morgannwg (Rhwydwaith Digwyddiadau a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau).
- Cyfleoedd ffilmio yn y Fro.
- Gweithio mewn partneriaeth â Croeso Cymru, awdurdodau lleol eraill, cynghorau tref, busnesau lleol, ac ati.
- Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus.
- Yr heriau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant twristiaeth.

Codwyd nifer o gwestiynau a sylwadau yn y cyfarfod ar yr eitem hon, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran twristiaeth a digwyddiadau ym Mro Morgannwg.
- Roedd y Cynghorydd Wiliam yn siomedig ar y lefelau isel o lety i dwristiaid yn yr ardal leol a gofynnodd sut y gallai'r Cyngor annog gwestai ychwanegol, ac ati, i ddod i'r Fro, yn ogystal ag am waith y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno calendr o ddigwyddiadau, ac unrhyw gynlluniau yr ymgwymerodd y Cyngor â nhw i helpu trydydd partion i adfer adeiladau ar gyfer twristiaeth. Cododd y Cadeirydd effaith denu gwestai newydd i'r ardal leol a'r pwysau posibl y gallai hyn eu rhoi ar lety gwyliau presennol a gofynnodd sut beth oedd eu gwyrddwch presennol. Esboniwyd bod gostyngiad wedi bod yn nifer y bobl yn defnyddio gwestai a llety gwely a brecwast presennol. Roedd angen cydbwysu denu gwestai newydd, ac ati a sicrhau bod gwestai a llety gwely a brecwast presennol hefyd yn cael eu siâr o arosiadau dros nos. Roedd diffyg llety gwyliau, yn enwedig yn y Barri, yn effeithio ar yr ymdrechion i annog ymwelwyr dydd i aros dros nos neu am nifer o ddiwrnodau. Roedd y Cyngor yn gweithio gyda busnesau o'r fath i farchnata eu gwasanaethau ac roedd yn ymgysylltu â busnesau newydd i ddod o hyd i lety gwyliau yn y Barri. Roedd gwaith yn cael ei wneud ac roedd cyllid wedi'i roi i grwpiau diwylliannol a threftadaeth i adfer adeiladau a manau, ar y cyd â phartneriaeth newydd y Barri.
- Gofynnodd y Cynghorydd Penn a fu unrhyw ymchwil ar faint o ddigwyddiadau trydydd parti a gyfrannodd at yr economi leol. Esboniwyd, oherwydd cost, nad oedd data o'r fath wedi'i gasglu i'r lefel y cyfeiriodd y Cynghorydd ati, ond gellid ystyried bod gwerth a budd digwyddiadau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol o hyd. Er gwaethaf cyllidebau cyfyngedig, roedd y calendr digwyddiadau yn dal yn brysur, gyda nifer sylweddol o ddigwyddiadau ar raddfa fach, a gyda'r Tîm Twristiaeth yn dal i roi cymorth a chynghor i ddigwyddiadau trydydd parti. Cytunodd y Cynghorydd fod y digwyddiadau llai hyn yn ychwanegu gwerth, ond byddai ffigurau manylach ar hyn yn helpu i fesur hyn yn fwy er mwyn i'r trefnwyr digwyddiadau bach hyn, ac ati weld eu gwerth ac er mwyn helpu i wella eu morâl.



- Cododd y Cynghorydd Hooper ymholiadau am y 3,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y diwydiant twristiaeth ac a oedd hyn yn cynnwys llety gwesty i bobl ddigartref, pryderon ynghylch effaith ehangu eiddo rhent gwyliau Airbnb a sut yr anogodd y Cyngor bobl i deithio i ddigwyddiadau mewn modd cynaliadwy a gyda chyn lleied o effaith ecolegol â phosibl. O ran y swyddi cyfwerth ag amser llawn, ystyriwyd pob busnes a oedd yn gysylltiedig â lletygarwch, gyda'r model STEAM yn defnyddio lluosyddion yn seiliedig ar nifer yr ymwelwyr a helpodd i gyfrifo nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, roedd llety a ddefnyddiwyd ar gyfer darpariaeth ddigartrefedd hefyd wedi'i gynnwys yn STEAM ac yna ei ddiystyru o'r ffigurau swyddi cyfwerth ag amser llawn. O ran Airbnb, y gobaith oedd y byddai rheoleiddio statudol a mwy o wiriadau ar gontractau rhent a lesddaliad yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â rhai o'r materion a gynhyrchir gan Airbnb a helpu'r eiddo rhent dilys hynny a oedd yn rhan ohono. O ran teithio ar gyfer digwyddiadau, yn enwedig ar gyfer y digwyddiadau mwy, byddai newyddion a gwybodaeth yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd am amseroedd trenau, parcio a theithio a mathau eraill a mwy cynaliadwy o drafnidiaeth. Gofynnodd y Cynghorydd am i'r fethodoleg STEAM a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ystadegau twristiaeth ar gyfer Bro Morgannwg gael ei rhannu gyda'r Pwyllgor, yn ogystal ag annog y Cyngor a Llywodraeth Cymru i edrych ar fwy o reoleiddio o ran Airbnb a'r defnydd o lwybrau cerdded er mwyn cael y cyhoedd lleol ac eraill i ddigwyddiadau ym Mro Morgannwg.
- Teimlai'r Cadeirydd fod angen gwneud trigolion Bro Morgannwg yn ymwybodol o sut y gallent gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch sut y gallent gefnogi twristiaeth a digwyddiadau lleol wrth symud ymlaen. Fel rhan o hyn, gofynnodd a oedd unrhyw gynlluniau i ymgysylltu â thrigolion, a chadarnhawyd bod arolwg trigolion wedi'i gynnal ac fel rhan o'i ganfyddiadau, roedd mwy o ymgysylltu â chymunedau lleol wedi'i argymhell. Maes arall y byddai'n cael ei ystyried oedd sut i liniaru effeithiau negyddol posibl ar gyfer cymunedau lleol a busnesau twristiaeth, fel gyda'r newid yn yr hinsawdd.
- O ran ymholiadau'r Cynghorydd Driscoll ar ffigurau yn ymwneud â chyfraniad Airbnb i'r economi leol, sut y byddai deddfwriaeth newydd yn effeithio ar fusnesau twristiaeth bach lleol ac a fu unrhyw ddatblygiadau ar y bloc toiledau ar Ynys y Barri, amlinellwyd y canlynol. O ran Airbnb, oherwydd COVID-19 a'r costau wrth gasglu data, nid oedd hyn wedi'i goladu yn ddiweddar. Nodwyd bod rhywfaint o lety Airbnb a oedd yn cael ei redeg yn broffesiynol a bod y llety hwn yn rhan hanfodol o'r cymysgedd o lety gwyliau. Roedd gan Airbnb rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu llety yn lleol, ond dylai cofrestru statudol wella safonau. O ran deddfwriaeth newydd, nid oedd yn hysbys eto beth fyddai'r effaith, a byddai hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor y flwyddyn nesaf. O ran agweddau fel yr ardoll dwristiaeth, gallai hyn fod o fudd i dwristiaeth leol. O ran Ynys y Barri, bu trafodaethau parhaus gyda pherchnogion y bloc toiledau ar ddatblygu'r gofod hwn, a oedd yn datblygu, ond roedd heriau o hyd o ran datblygu'r gofod gerllaw, a oedd angen mwy o ystyriaeth fel rhan o ymarfer uwchgynllunio a chreu lleoedd yn y dyfodol.
- Gofynnodd y Cynghorydd Wiliam i fwy o aelodau lleol gael eu cynnwys mewn materion sy'n ymwneud â thwristiaeth ar Ynys y Barri. Esboniwyd bod gofyn i'r Cyngor gynnwys Aelodau Etholedig lleol mewn gweithgareddau creu lleoedd. Yn y Bont-faen a Llanilltud Fawr lle'r oedd y cynlluniau wedi'u cyd-gomisiynu gyda'r Cynghorau Tref, roedd Aelodau Etholedig lleol yn

gweithredu fel hyrwyddwyr / eiriolwyr creu lleoedd ac yn bwydo i mewn i'r broses.

- Cododd y Cynghorydd Wiliam a'r Cynghorydd Protheroe y mater o ran cysylltedd Wi-Fi cyhoeddus gwell a gwella cysylltiadau rhwydwaith symudol cyffredinol ar gyfer Ynys y Barri, y Fro wledig, ardaloedd arfordirol, a safleoedd twristiaeth eraill. Gallai mapio cysylltedd helpu i fynd i'r afael â hyn ac unrhyw leoliad dilynol mastiau ffôn symudol / signal ychwanegol, yn ogystal â mentrau eraill er mwyn cefnogi mwy o gysylltedd. Roedd y Cynghorydd Protheroe wedi siarad ag arweinydd Llywodraeth Cymru (LIC) ar hyn. O ran cysylltedd Wi-Fi, esboniwyd bod y cyfleuster cyhoeddus ar gyfer Wi-Fi mewn lleoliadau fel Ynys y Barri wedi cael ei effeithio gan gostau cynnal a chadw cynyddol a'r cyhoedd yn defnyddio Wi-Fi mewn busnesau ac adeiladau lleol yn lle. O ran cwmras rhwydwaith symudol ar gyfer y Fro, roedd mapio ar gyfer hyn eisoes yn bodoli ac roedd gwaith wedi'i wneud mewn ardaloedd fel yn y Bont-faen ar wella Wi-fi sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gyda chefnogaeth gan fusnesau lleol a'r Cyngor Tref. Fel rhan o hyn, cyfeiriodd y Cynghorydd Champion at gwmni a allai atodi dyfais i gerbydau sbwriel lleol a allai fonitro signalau symudol yn lleol ac roedd wedi bod yn trafod hyn gydag Ofcom hefyd. Byddai'n cydgysylltu â'r Cynghorydd Protheroe er mwyn ei helpu gyda hyn. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Lleoedd a allai'r Cynghorydd Protheroe rannu manylion arweinydd LIC gydag ef neu gydweithwyr er mwyn gweld a oes angen monitro pellach ar gyfer cysylltedd symudol, er y byddai hyn yn amodol ar gost. Fodd bynnag, roedd hefyd yn bwysig nodi bod LIC hefyd wedi cynnal ei gwaith adolygu a monitro ei hun yn y maes hwn.

Wedi hynny

#### ARGYMHELLWYD –

(1) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet, er mwyn iddo allu ystyried a bod yn ymwybodol o'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor ar yr adroddiad hwn, gan gynnwys y cais am wybodaeth am, a gwell dealltwriaeth o'r canlynol (i'w darparu gan swyddogion perthnasol y Cyngor):

- Defnyddio'r fethodoleg STEAM ar gyfer yr ystadegau twristiaeth ar gyfer Bro Morgannwg.
- Gwydnwch y sector twristiaeth ym Mro Morgannwg.
- Effaith y ddeddfwriaeth newydd ar y sector hwn.
- Sut i wella'r rhyngwyd, Wi-Fi a chysylltedd digidol cyffredinol ar gyfer y diwydiant twristiaeth lleol.
- Sut y gall trigolion Bro Morgannwg gymryd rhan yn y drafodaeth am sut y gallant gefnogi twristiaeth a digwyddiadau lleol wrth symud ymlaen.
- Sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y diwydiant twristiaeth lleol a sut y gellir lliniaru hyn.

(2) BOD y Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran twristiaeth a digwyddiadau ym Mro Morgannwg, i'w ychwanegu at raglen waith y Pwyllgor.

## Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, ac i'r Pwyllgor gael mwy o wybodaeth am y meysydd allweddol o ddiddordeb a godwyd yn yr adroddiad ac yn y cyfarfod gan swyddogion perthnasol y Cyngor.

(2) I'r Pwyllgor gael diweddariad ac adroddiad blynyddol, rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y diwydiant twristiaeth lleol a'r heriau sy'n cael eu hwynebu.

### 232 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 DIWEDD BLWYDDYN (CL) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lleoedd, gan amlinellu cynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024) tuag at gyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol. Bwriad y cyflwyniad atodedig oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd blwyddyn cyn gynted â phosibl. Roedd hyn cyn yr Hunanasesiad Blynyddol manylach ar gyfer 2023/24 a fyddai'n cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Roedd y pwyntiau allweddol ar gyfer yr Aelodau'n cynnwys y canlynol:

- Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 3 o Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn Ch4 a phriodolwyd statws perfformiad Oren i un Amcan Lles (Amcan Lles 1). Roedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma wrth gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24.
- Priodolwyd sgôr perfformiad Gwyrdd i 91% (463 allan o 507) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor gan gyfleu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Priodolwyd statws Coch i 9% (44) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.
- O'r 161 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 85 o fesurau lle roedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 46% (39) ohonynt, statws Oren i 14% (12) ohonynt, a statws Coch i 40% (34) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 76 o fesurau gyda 56 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau a oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2023/24, ac nid oedd data ar gael ar gyfer 20 o fesurau.
- Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 90.5% (152 allan o 168) a statws Coch i 9.5% (16). O'r 27 o fesurau a adroddwyd, lle roedd statws Coch, Oren, Gwyrdd yn berthnasol, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 59.3% (16), priodolwyd statws Oren i 11.1% (3) a phriodolwyd statws Coch i 29.6% (88).
- Gan gyfeirio at Atodiad A yr adroddiad a'r perfformiad ar gyfer y cyfnod hwn fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu ac Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, rhoddwyd uchafbwyntiau i'r Pwyllgor o'r hyn a gyflawnwyd, y meysydd ar gyfer gwella, meysydd datblygu a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â meysydd sy'n peri pryder sy'n dod i'r amlwg.

- Er mwyn hwyluso cyfeirio, tynnodd eithriadau perfformiad yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu sylw at statws presennol y camau perfformio Coch a nodwyd yn y chwarterau blaenorol i ddangos cyfeiriad teithio ar ddiwedd y flwyddyn. Galluogodd hyn i'r Aelodau fesur yn gyflym a oedd camau unioni arfaethedig wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu'r camau hyn (Atodiad B).

Codwyd nifer o gwestiynau a sylwadau yn y cyfarfod ar yr eitem hon a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cododd y Cynghorydd Hooper ymholiad ar y prosiect ffyniant bro Creu Tonnau. Mewn ymateb cadarnhawyd bod y Cyngor wedi derbyn y cyllid a'i fod o'r diwedd wedi derbyn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn llofnodi gyda Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, oherwydd mai dim ond ar y diwrnod cyn galw'r etholiad cyffredinol y cafodd hyn ei dderbyn, nid oedd y Cyngor wedi gallu dychwelyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth oherwydd bod y llywodraeth flaenorol wedi'i diddymu ynghyd â'r senedd. Ar ôl i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei lofnodi gan Brif Weithredwr y Cyngor, byddai hyn yn cael ei dychwelyd i lywodraeth newydd y DU, gyda'r ddealltwriaeth nad oedd y Llywodraeth newydd wedi newid ei safbwynt o ran y cyllid a fyddai'n dal i gael ei dderbyn. Yn ogystal, parhaodd y Cyngor i ddatblygu gwaith gyda chydweithwyr yng Nghymdeithas Porthladdoedd Prydain ynghylch safle'r Glannau. Roedd yn debygol mai'r Cyngor ei hun fyddai'r rheolwr prosiect ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith ar wahân i gyflawni'r marina ei hun.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Drake ar y gwaith dan gyflawniadau Amcan 4 ynghylch y Strategaeth Coed a beth oedd yr amserlen ar gyfer ei gwblhau, yn ogystal â'r cysylltiadau a wnaed gyda thirfeddianwyr preifat fel rhan o'r Strategaeth hon, esboniwyd bod y Strategaeth Coed yn canolbwyntio'n bennaf ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac nid ardaloedd preifat. Fodd bynnag, gallai tirfeddianwyr preifat gael cyngor ynghylch gorchudd coed ac ymgysylltu â'r broses. Y bwriad oedd dod â'r diweddariad a'r adroddiad ar hyn yn ôl i'r Pwyllgor maes o law. Roedd yr adroddiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar y Strategaeth gyda'r nod o'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi yn dilyn ymgynghoriad helaeth gan gynnwys derbyn sylwadau gan dirfeddianwyr preifat. Esboniwyd hefyd y gallai fod cyfle i'r Cyngor gefnogi tirfeddianwyr preifat mewn ardaloedd lle roedd lefelau isel o ganopi coed trefol, gyda phob parti yn ymrwmo i wneud ei ran. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai dim ond am ei dir ei hun y gallai'r Cyngor fod yn gyfrifol, ond byddai'n rhoi cyngor a rhywfaint o gymorth mewn ardaloedd gyda gorchudd coed trefol isel i gefnogi tirfeddianwyr preifat, ac ati. Y gred ar hyn o bryd oedd y byddai'r adroddiad, ar ôl iddo gael ei ystyried yn y Cabinet, yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i graffu ymhellach, ond roedd disgwyl i hynny gael ei gadarnhau.
- Cododd y Cynghorydd Wiliam nifer o sylwadau ac ymholiadau gan gynnwys y sefyllfa bresennol o ran rheolaeth y Cyngor o goed fel ar dir cyhoeddus h.y. Parc Romilly lle'r oeddent yn tresmasu ar y ffyrdd ac a oedd hyn o ganlyniad i gyllidebau is ac ati, ac ynghylch y nifer fawr o oleuadau cyhoeddus a oedd bellach wedi'u newid i rai LED yn ogystal â phan ddechreuodd y broses hon. Esboniwyd bod mwy o gyllid ar gael yn y Rhaglen Gyfalaf eleni ar gyfer plannu coed, gwaith cynnal a chadw ac er mwyn cefnogi'r Strategaeth Coed

yn gyffredinol. Mewn perthynas â'r goleuadau LED, dechreuodd y broses hon tua thair blynedd yn ôl gyda'r mwyafrif ohoni bellach wedi'i gwblhau a'r unig ffurf o oleuadau a oedd yn weddill i'w disodli oedd y llusernau a'r goleuadau mwy addurnedig yr oedd yn anoddach dod o hyd iddynt. Y bwriad oedd cwblhau'r broses hon ar ôl i'r dechnoleg berthnasol gael ei gwella ar gyfer y math hwn o oleuadau ac roedd y llusernau priodol ar gael er mwyn disodli'r nifer fach o oleuadau a oedd ar ôl nad oeddent y rhai LED. O ran coed yn tresmasu mewn mannau cyhoeddus fel Parc Romilly, esboniwyd y byddai'r Cyngor yn trefnu archwiliad ac yn cynnal unrhyw waith cynnal a chadw a oedd ei angen.

Wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD canlyniadau perfformiad chwarter 4 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2023/24 fel y maent yn cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn cael eu nodi.

(2) BOD y camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor yn cael eu nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod, ac i sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2023/24 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod, ac i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 iddo wneud y mwyaf o'i gyfraniad at y gwaith o gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.